

# Cynllun Datblygu Lleol Conwy

2007-2022

Argraffiad Diwygiedig 2011

## Camu allan symud ymlaen



# Croeso

Mae Conwy yn ardal hardd i fyw ynddi, ac rydyn ni'n bwriadu gofalu amdani fel bod cymunedau yn y dyfodol o'r un farn.

Nid yw hynny'n golygu bod yn rhaid i bethau aros yr un fath. Rydyn ni eisiau cael tai y mae pobl yn gallu eu fforddio, swyddi lleol sy'n talu'n dda, amddiffyn yr amgylchedd, hybu'r iaith Gymraeg a mynd i'r afael â materion fel llifogydd.

Mae'r fersiwn ddiwygiedig hon o'n Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), sy'n ddeniadol i bobl ifanc, yn dod â phob agwedd ar Gonwy yn un weledigaeth ar gyfer y dyfodol.




## Oeddech chi,n gwybod?

Mae 112,000 o bobl yn byw yng Nghonwy, ac mae'n bur debyg bod hynny'n mynd i aros yn gyson. Er hynny, mae nifer y plant, pobl ifanc a'r rhai hynny rhwng 18 a 35 oed i gyd yn lleihau, ac mae nifer y bobl dros 65 oed yn cynyddu.

Rydyn ni wir eisiau ei gwneud yn haws ac yn fwy deniadol i bobl ifanc ac oedolion ifanc aros, byw a gweithio yng Nghonwy. Felly, mae cael mwy o dai newydd am brisiau fforddiadwy a mwy o gyfleoedd i weithio'n lleol yn rhan allweddol o'n cynllun ni.



“Mae angen inni wneud hyn,  
ond rydyn ni hefyd eisiau amddiffyn yr  
harddwch naturiol rydyn ni'n ei  
fwynhau.”



Rydyn ni hefyd eisiau gofalu am ein poblogaeth sy'n heneiddio o ran iechyd a chyfleusterau cymunedol newydd ac, ar yr un pryd, sicrhau bod ganddyn nhw dai sy'n diwallu eu hanghenion.

# Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Conwy

Mae gan y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol i fynd i'r afael â'r heriau hyn rhwng 2007 a 2022.

Maen nhw wedi treulio amser yn edrych ar sawl adroddiad, astudiaeth, a phapur tystiolaeth ar brosiectau sydd wedi'u cynnal eisoes yng Nghonwy fel bod ganddyn nhw dealltwriaeth ehangach a dyfnach o'r anghenion cynllunio.

Erbyn 2022, rydyn ni eisiau i gymunedau Conwy fod â chydbwysedd teg o ran eu heconomi a'u poblogaeth fel eu bod nhw'n gallu parhau i fod yn lleoedd gwych i fyw am genedlaethau i ddod.

Os ydyn ni am wneud hyn, bydd angen inni ddarparu tai fforddiadwy newydd, cyfleoedd cyflogaeth, cyfleusterau rheoli gwastraff newydd a rhwydwaith trafniadaeth sy'n diwallu anghenion y bobl sy'n byw yng Nghonwy. (Mae gan ardal Parc Cenedlaethol Eryri ei CDLI ei hun.)

## Oeddech chi'n gwybod?

eich bod chi'n gallu gweld yr holl ddogfennau hyn hefyd...naill ai ar wefan y cyngor  
([www.conwy.gov.uk/ldp](http://www.conwy.gov.uk/ldp)) yn swyddfeydd y cyngor neu mewn llyfrgelloedd lleol.

Mae gennym ni draethau tywodlyd, clogwyni, dyffrynnoedd heddychlon, rkosydd agored, coedwigoedd a mynyddoedd.



# Ein Gweledigaeth

Rydyn ni eisiau i bobl sy'n byw yng Nghonwy gael bywydau hapus a iach, a byw mewn cymunedau diogel a chryf.

Erbyn 2022, bydd cymunedau Conwy'n fwy cynaliadwy ac yn cynnig ansawdd bywyd uwch. Bydd y Cynllun wedi darparu:

- Hyd at 7900 o gartrefi newydd, gan gynnwys 2200 o dai fforddiadwy
- tir i alluogi hyd at 4000 o swyddi newydd
- rhandiroedd newydd
- manau agored newydd a gwell
- a chyfleusterau gwastraff newydd.

Bydd tir ar gael ar gyfer tai newydd, tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol, diwylliant, hamdden, cyflogaeth, manau agored, cyfleusterau cymunedol, a datblygiadau y bydd modd eu defnyddio ar gyfer llawer o wahanol weithgareddau. Bydd y rhain yn cael eu cynllunio a'u hadeiladu lle bydd modd eu cyrchu a'u cynnal yn hawdd mewn pentrefi a threfi mwy yn yr ardaloedd dan sylw.

Fe fydd yna rwydweithiau trafndiaeth gyhoeddus, cerdded, a beicio gwell a chyfleuster cyfnewidfa yn Llandudno i leihau tagfeydd traffig, a chysylltu pobl â'r cyfleusterau, cyflogaeth a'r tai sydd eu hangen arnyhau.

Bydd yr amgylchedd, cefn gwlad a'r forlin yn cael eu gwarchod a'u gwella.



Bydd mannau gwyrdd yn cael eu sicrhau a fydd yn ychwanegu at anghenion Conwy, fel lleoedd ar gyfer hamdden, chwarae, iechyd a budd economaidd.

Trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig, bydd gan y prif bentrefi gysylltiadau ag ardaloedd trefol a Pharc Cenedlaethol Eryri. Bydd rolau ein pentrefi bach a phentrefannau hefyd yn cael eu cefnogi trwy eu helpu nhw i gynnal eu cymeriad ond, ar yr un pryd, hwyluso pobl leol i fanteisio ar siopau a chyflogaeth yn ogystal â thai fforddiadwy lleol, mannau agored a gwasanaethau allweddol. Rydyn ni hefyd eisiau diogelu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr holl ardaloedd hyn.

Byddwn yn creu "Lletemau Gwyrdd" newydd lle na fydd hawl i adeiladu arnyn nhw, er mwyn amddiffyn yr amgylchedd naturiol a hunaniaeth y pentrefi presennol.

Bydd datblygiadau newydd yn ychwanegu at warchod cefn gwlad a'r arfordir. Byddan nhw'n defnyddio cyn lleied o adnoddau naturiol â phosibl ac yn hybu ffynonellau ynni cynaliadwy.

Rydyn ni'n gwybod bod angen i ystod eang o wasanaethau fod o fewn cyrraedd cymunedau yn rhwydd, fel cyfleusterau addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, mannau agored, hamdden a siopa er mwyn bod yn gynaliadwy. Dylai polisiâu cynllunio a chynlluniau eraill reoli darpariaeth y cyfleusterau hyn.

Erbyn 2022, bydd cymunedau Conwy'n fwy cynaliadwy ac yn cynnig ansawdd bywyd uwch.

Rydyn ni'n canolbwyntio ar 7 maes yn y cynllun hwn.

## Y Meysydd Cynllunio:

1. Tai

2. Yr Economi a thwristiaeth

3. Gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol

4. Yr amgylchedd naturiol

5. Treftadaeth ddiwylliannol

6. Trafnidiaeth gynaliadwy

7. Mwynau a gwastraff

# Tai



## Pam?

Os ydyn ni'n adeiladu tai, mae angen inni sicrhau ein bod ni'n adeiladu'r math cywir yn yr ardaloedd cywir.

Mae angen adeiladu tai newydd mewn cymunedau sy'n darparu lleoedd i weithio, canolfannau iechyd, ysgolion, bysiau a gwasanaethau eraill.

## Nodau

Sicrhau bod digon o dai'n cael eu hadeiladu i ddiwallu anghenion pobl ifanc ac eraill yn y gymuned, a'u bod yn fforddiadwy.

Adeiladu'r tai ychwanegol lle mae ffyrdd a chymunedau eisoes yn bodoli.



Mae Bwrdeistref Sirol Conwy yn cwmpasu ardal 1130 cilomedr sgwâr...

Mae hynny'n anferth!

# Yr Economi a thwristiaeth

## Pam?

Mae twristiaeth yn rhan fawr o'r economi yng Nghonwy, ac mae cael pobl i ymweld trwy gydol y flwyddyn yn bwysig i'n cymunedau a chyflogaeth.

Rhaid i unrhyw gynlluniau sydd gennym weithio ochr yn ochr â harddwch naturiol ein hardaloedd arfordirol a Pharc Cenedlaethol Eryri, a'u hamddiffyn.

Mae disgwyliadau o ran twristiaeth yn newid. Mae'r rhain ym meysydd twristiaeth busnes, chwaraeon dŵr a seibiannau byr ar gyfer gweithgareddau. Mae angen mwy o le a chyfleusterau ar gyfer pob un o'r rhain, ond rydyn ni'n bwriadu rhoi'r rhain ar waith heb effeithio'n negyddol ar gymunedau neu'r amgylchedd.

## Nodau

Dod o hyd i ardaloedd o dir a'u gwarchod at ddibenion cyflogaeth gwahanol i greu swyddi ac annog pobl ifanc i aros yn yr ardal.

Annog busnesau mewn ardaloedd gwledig i roi cynnig ar wahanol syniadau a fydd yn gweithio ac yn annog yr economi, y gymuned a'r amgylchedd lleol.

Helpu twristiaeth trwy wella cyrchfannau arfordirol a chysylltiadau ag ardaloedd eraill. Hefyd, sicrhau bod ganddyn nhw leoedd braf i aros a phethau i'w gwneud sy'n hwyl trwy gydol y flwyddyn fel ein bod ni'n gallu manteisio i'r eithaf ar dwristiaeth, gan gynnwys chwaraeon dŵr, hamdden a'r Eryri.

Hybu'r datblygiadau diwydiannol a swyddfeydd newydd a gwarchod tir cyflogaeth presennol rhag mathau eraill o ddatblygiad.





# Gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol



## Nodau

Datblygu canol trefi bywiog ar gyfer siopa, adloniant a hamdden.

Ei gwneud yn haws cyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys manau agored a lleoedd iechyd, addysg a hamdden.

## Pam?

Mae sicrhau bod yna ddigon o gyfleusterau cymunedol a chymdeithasol ar gael yn hanfodol wrth ystyried cynigion datblygu newydd.

Os yw cymuned yn mynd i oroesi a thyfu yn y dyfodol, mae angen ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau arni, fel addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, manau agored a chyfleusterau siopa a hamdden.

Mae twristiaeth, ffermio, y sector gwasanaethu a busnesau bach yn rhannau MAWR o'r economi yng Nghonwy!



# Yr amgylchedd naturiol

## Nodau

Dylunio a chynllunio adeiladau sy'n hybu datblygiadau ynni adnewyddadwy ac yn lleihau defnyddio ynni lle bo modd.

Sicrhau bod ein harfordir, cefn gwlad, safleoedd archaeolegol a hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth yn cael eu diogelu a'u gwella, a gofalu am fioamrywiaeth (gwahanol blanhigion) ac anifeiliaid a warchodir.

Sicrhau ein bod ni'n defnyddio ein holl adnoddau naturiol yn ddoeth a ddim yn eu gwastraffu. Hefyd, mae angen inni sicrhau bod yna ddigon o safleoedd rheoli gwastraff ac ailgylchu ar gael i ddiwallu'r anghenion.


## Pam?

Mae ein cefn gwlad a'n morlinau yn adnoddau gwerthfawr. Maen nhw'n cefnogi ac yn darparu ar gyfer gweithgareddau hamdden lleol, yn ogystal â chefnogi'r economi amaethyddol.

Mae twristiaid hefyd yn dod i fwynhau harddwch ein cefn gwlad a'n morlin.

Rydyn ni eisiau sicrhau eu bod nhw'n cael eu diogelu a'u gwarchod, a bod gwelliannau'n cael eu gwneud i'r ardaloedd sydd eu hangen.

Rydyn ni'n gwybod y bydd y datblygiadau rydyn ni'n bwriadu eu hadeiladu heddiw'n cael effaith tymor hir ar Gonwy ac y byddan nhw'n effeithio ar yr amgylchedd byd-eang yn ogystal â'r amgylchedd lleol.



# Treftadaeth ddiwylliannol

## Nodau

Gwarchod ac ychwanegu at gymeriad a golwg ardaloedd, gan gynnwys arfordiroedd a chefn gwlad.

Gofalu am leoedd ac adeiladau hanesyddol tra'n bod yn hybu twf newydd.

Cynllunio datblygiadau mewn modd sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg.


## Pam?

Mae yna bryder bod rhai adeiladau yng Nghonwy wedi'u hatgyweirio neu eu haddasu gan ddefnyddio deunyddiau nad ydyn nhw'n cydweddu â'u hanes.

Mae hyn i'w weld yn y ffenestri, yr arwyddion, y drysau neu'r ychwanegiadau mae pobl yn eu codi. Rydyn ni eisiau sicrhau bod pob un o hen adeiladau Conwy'n cael eu gwarchod a'u gwella i safon uchel, a bod adeiladau newydd yn cael eu hadeiladu mewn modd sy'n gweddu i'w lleoliad.

Bydd cyngor, help a chyfarwyddyd ar gael ar gyfer pob adeiladwaith hanesyddol a byddwn ni'n sicrhau bod yr adeiladau a'r ardaloedd pwysicaf yn cael eu hamddiffyn.

Mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig yn rhan bwysig o dreftadaeth Conwy. Rydyn ni wedi ymrwmo i amddiffyn y rhain.



# Trafnidiaeth gynaliadwy



## Nodau

Datblygu a gwella rhwydweithiau teithio presennol.

Annog pobl i ddefnyddio rheilffyrdd, bysiau, beiciau a'u traed!

Cydnabod pwysigrwydd rhwydweithiau ffordd a thrên ar gyfer cyflogaeth, busnes a thai.

Gwella gallu pobl i gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol, gan gynnwys ysbytai, ysgolion ac ardaloedd hamdden.

## Pam?

Pan rydyn ni'n datblygu ardal, mae angen inni sicrhau ei bod yn gallu cysylltu â'r prif lwybrau trafniadwy.

Mae'n bwysig peidio â pheryglu diogelwch ffordd trwy gynyddu nifer y ceir a cherbydau eraill. Gall hyn olygu cynllunio i annog defnyddio llai ar geir a defnyddio mwy ar drafniadwy gyhoeddus, a cherdded a beicio.

Rydyn ni eisiau i gyfleusterau fod o fewn cyrraedd cymunedau yng Nghonwy yn rhwydd. Mae hyn yn golygu ein bod ni eisiau i'r gymuned allu cyrchu'r hyn sydd ei angen arnyn nhw (e.e. siopau, ysgolion, cyflogaeth) yn hawdd a heb orfod defnyddio car bob amser.

# Mwynau a gwastraff



## Nodau

Lleihau gwastraff a'r defnydd o adnoddau.

Darparu cyfleusterau rheoli gwastraff ac ailgylchu sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol.


Cyrraedd targedau lleol a rhanbarthol ar gyfer anghenion mwynau fel chwareli cerrig ac ati.

## Pam?

Mae angen inni hybu '**lleihau, aildddefnyddio neu ailgylchu**' i sicrhau bod cyn lleied o wastraff â phosib yn cael ei gynhyrchu yn y lle cyntaf.

Mae llawer o bobl yn galw am newidiadau yn y ffordd rydyn ni'n rheoli ein gwastraff.

Rydyn ni eisiau sicrhau bod safleoedd yn cael eu lleoli mewn ardaloedd addas gyda chysylltiadau trafndiaeth da ac mor agos i ffynhonnell y gwastraff â phosib.



Diolch am ddarllen y cynllun hwn.  
Mae'n gynllun uchelgeisiol sy'n gofyn i bawb weithio gyda'i  
gilydd i greu dyfodol gwell i Gonwy a phawb sy'n byw yma.  
Os ydych chi am ddarllen y cynllun  
LLAWN, neu os oes gennych chi  
unrhyw gwestiynau, mae croeso  
ichi gysylltu â ni.

Y Tîm Polisi Cynllunio  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
26 Stryd y Castell  
Conwy  
LL32 8AY

Ffôn: 01492 57 5461  
e-bost [cdll.ldp@conwy.gov.uk](mailto:cdll.ldp@conwy.gov.uk)

